# Faint rydych chi'n ei wybod am y *Bake Off*?

1. Ydych chi'n gallu meddwl am ragor o gwestiynau am y *Bake Off*?
    - Gweithiwch mewn parau neu grwpiau bach.
    - Rhowch eich cwestiynau newydd i'ch athro/athrawes.
    - Os nad oes neb yn y dosbarth yn gallu ateb y cwestiwn, rydych chi'n ennill pwynt.

| |
|---|
| |

2. Beth yw eich barn am y ffaith fod y *Bake Off* yn symud o BBC1 i Sianel 4 Lloegr?
    - Fydd hwn yn newid y rhaglen, yn eich barn chi? Sut?
    - Fyddwch chi'n dal i wylio'r rhaglen?
    - Pwy hoffech chi ei weld ar y rhaglen newydd, yn lle'r rhai na fyddan nhw'n symud i'r sianel deledu newydd?
    - Beth yw manteision ac anfanteision symud y *Bake Off*?

| **Barn** | |
|---|---|
| | |
| **Manteision symud y *Bake Off*** | **Anfanteision symud y *Bake Off*** |
| | |

3. Ydy'r rhaglen wedi cael effaith arnoch chi? Er enghraifft:
    - Ydych chi'n pobi nawr, oherwydd y rhaglen?
    - Ydych chi wedi prynu llyfr pobi i chi eich hun neu'n anrheg i rywun arall?

4. Ydych chi'n gwerthu cacennau yn yr ysgol weithiau, i godi arian i elusen?
    - Beth am drefnu digwyddiad fel hyn?
    - Gweithiwch allan beth fydd ei angen arnoch chi. Beth yw hoff gacennau'r dosbarth? Gwnewch restr ohonyn nhw.
    - Pa ddiodydd fydd eu hangen?

5. Ydych chi wedi bod mewn digwyddiad y tu allan i'r ysgol lle roedd cacennau'n cael eu gwerthu i godi arian i elusen? Soniwch amdano wrth weddill y dosbarth.

6. Defnyddiwch ddechrau'r cwestiynau i greu cwestiynau hollol wahanol, **am unrhyw bwnc**:

i. Faint o ..............................................................................................?

ii. Beth yw ..............................................................................................?

iii. Ar ba sianel deledu ..............................................................................?

iv. Ble ......................................................................................................?

v. Beth oedd ............................................................................................?

vi. Pwy ......................................................................................................?

vii. Pryd ....................................................................................................?

viii. Mewn sawl ........................................................................................?

7. Edrychwch ar y geiriau 'pobydd' a 'cogydd'.

Gallwch eu rhannu fel hyn: **pob(i) + –ydd** **cog(inio) + –ydd**

Llenwch y tabl:

| Diffiniad | Enw –ydd |
|---|---|
| i) Rhywun sy'n ysgrifennu nofel | |
| ii) Rhywun sy'n ennill neu sydd wedi ennill | |
| iii) Rhywun sy'n cyflwyno | |
| iv) Rhywun sy'n gweithio mewn llyfrgell | |
| v) Rhywun sy'n trefnu rhywbeth | |
| vi) Rhywun sy'n gwerthu cig | |
| vii) Rhywun sy'n gofalu am eich dannedd | |
| viii) Rhywun sydd â dros filiwn o bunnoedd | |

Beth yw **mwy nag un** o'r rhain?

8.

Darllenwch y wybodaeth am Tom Hovey, yr arlunydd, ar wefan y BBC yn Saesneg
[http://www.bbc.co.uk/programmes/articles/4fr6jXM3XQpXG9sc8t0tQH/meet-the-great-british-bake-off-illustrator-tom-hovey](http://www.bbc.co.uk/programmes/articles/4fr6jXM3XQpXG9sc8t0tQH/meet-the-great-british-bake-off-illustrator-tom-hovey)

Yna, gyda phartner, siaradwch am yr hyn rydych chi wedi'i ddysgu **yn Gymraeg**.

Pa ddarn o wybodaeth oedd fwyaf diddorol i chi?

Oeddech chi wedi sylwi ar waith Tom wrth wylio'r rhaglen?
Ydy'r lluniau'n ddefnyddiol wrth wylio'r rhaglen?

**Atebion**

**Y Cwis**

1. 12
2. 3
3. Giedroyc, Perkins
4. Hollywood, Berry
5. Signature, Technical, Showstopper.
6. Technical
7. Yn y brifysgol yng Nghaergrawnt
8. BBC2
9. BBC1
10. Channel 4
11. Mae Paul yn mynd gyda'r rhaglen, mae Mary, Mel a Sue yn gadael
12. An Extra Slice
13. Pobydd
14. Dros 70 o lyfrau
15. Candice (Brown)
16. Louise (Williams) o Gaerdydd
17. Saith
18. 2010
19. 21 gwlad
20. Beca (Lyne-Pirkis)

7.

| Diffiniad | | Enw –ydd |
|---|---|---|
| i) | Rhywun sy'n ysgrifennu nofel | nofelydd |
| ii) | Rhywun sy'n ennill neu sydd wedi ennill | enillydd (un 'n') |
| iii) | Rhywun sy'n cyflwyno | cyflwynydd |
| iv) | Rhywun sy'n gweithio mewn llyfrgell | llyfrgellydd |
| v) | Rhywun sy'n trefnu rhywbeth | trefnydd |
| vi) | Rhywun sy'n gwerthu cig | cigydd |
| vii) | Rhywun sy'n gofalu am eich dannedd | deintydd |
| viii) | Rhywun sydd â dros filiwn o bunnoedd | miliwnydd |